



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

VIN – Neoplasia Mewnepithelaidd y Fwlfa Taflen wybodaeth i gleifion

Beth yw Neoplasia Mewnepithelaidd y Fwlfa?

Mae Neoplasia Mewnepithelaidd y Fwlfa (VIN) yn gyflwr croen cyn-ganseraidd lle mae celloedd annormal yn datblygu yn rhanbarth y fwlfa. Os na chaiff ei drin, gall VIN barhau, ymchwelyd neu symud ymlaen i fod yn ganser y fwlfa. Mae'r broses o symud ymlaen i ganser y fwlfa yn broses araf sydd fel arfer yn cymryd blynyddoedd lawer i ddatblygu.

Dymaddadansoddiad o derminoleg Neoplasia Mewnepithelaidd y Fwlfa:

- Fwlfal - Mae'r cyflwr hwn yn effeithio ar groen y fwlfa. Gall ddigwydd yn y croen o amgylch agoriad y fagina, y labia neu'r clitoris.
- Mewnepithelaidd - Mae wedi'i gyfyngu i haenau uchaf y croen, sy'n golygu nad yw'n ymosod ar feinweoedd dyfnach, mae'n wahanol i ganser y fwlfa yn hyn o beth.
- Neoplasia – Twf annormal a heb ei reoli mewn celloedd yn y corff.

Beth yw'r mathau o VIN?

VIN math arferol (VIN 1-3)

- Y math mwyaf cyffredin yw **math arferol VIN (uVIN)**. Mae'r math hwn yn fwy cyffredin ymhlith menywod 35 i 55 oed. Fe'i hachosir gan feirws papiloma dynol (HPV). Mae newidiadau i'r celloedd yn fwy tebygol o ddatblygu mewn menywod sy'n ysmegu ac mewn menywod ag imiwnedd is. Mae HPV yn cael ei ledaenu fel arfer trwy gyswllt croen-i-groen, gan gynnwys gweithgaredd rhywiol. Er y bydd y rhan fwyaf o fenywod yn cael eu hamlygu i HPV ar ryw adeg yn eu bywydau, mae system imiwnedd y corff yn aml yn clirio'r firws heb achosi'r symptomau. Os na chaiff y firws ei glirio, gall arwain at ddatblygiad celloedd annormal ac o bosibl canser.
- Mae **VIN1** yn cynrychioli newidiadau firaol a llidiol gradd isel nad oes angen triniaeth arnynt, ond y dylid eu harsylwi.
- **Mae VIN 2-3** yn cynrychioli newidiadau gradd uchel sydd fel arfer angen triniaeth. Bydd tua 10% o gleifion sydd â VIN gradd uchel yn datblygu canser y fwlfa dros 10 mlynedd

VIN(dVIN) gwahaniaethol – mae'r math hwn yn fwy prin. Mae'n fwy cyffredin ymhlith merched 55-85 oed ac mae'n codi yng nghefnidir cyflyrau croen fel Lichen

sclerosus a Lichen planus. Nid yw dVIN fel arfer yn gysylltiedig â HPV. Bydd tua 50% o friwiau dVIN yn datblygu i fod yn ganser dros 10 mlynedd os na chânt eu trin.

Beth yw symptomau VIIN?

Symptomau cyffredin VIN yw cosi, llosgi, poen, dolur neu chwyddo yn ardal y fwlfâ. Gellir sylwi ar newid i liw neu wead y croen hefyd. Weithiau, gall VIN ddod i'r amlwg drwy gyfathrach rywiol boenus.

Mewn rhai achosion, gall VIN fod yn asymptomatig a chael ei ddarganfod yn ystod archwiliad arferol.

Sut mae gwneud diagnosis o VIN?

Mae VIN yn cael ei ddiagnosisio trwy archwiliad gofalus o'r fwlfâ gan eich meddyg. Gall ardaloedd annormal ymddangos fel darnau gwyn, coch neu frown. Er mwyn cadarnhau'r diagnosis a diystyru canser, cynhelir biopsi. Mae hyn yn golygu cymryd sampl bach o groen i'w ddadansoddi mewn labordy i wirio am gelloedd annormal. Mae'r canlyniadau ar gael fel arfer o fewn dwy i bedair wythnos.

Neoplasia Mewnepithelaidd mewn Ardaloedd Eraill

Gall cyflyrau tebyg ddigwydd mewn rhannau eraill o'r llwybr cenhedlol benywaidd, megis:

1. Neoplasia Mewnepithelaidd Serfigol (CIN): Sy'n effeithio ar wddf y groth (ceg y groth), a ganfyddir yn gyffredin trwy brofion ceg y groth.
2. Neoplasia Mewnepithelaidd y Wain (VAIN): Yn effeithio ar y fagina.
3. Neoplasia Mewnepithelaidd Rhefrol (AIN): Yn effeithio ar lwybr y rhefr.

Hunanofal a Rheolaeth

Gwella Symptomau: Ceisiwch osgoi defnyddio sebon a diaroglyddion personol ar y fwlfâ. Yn lle hynny, defnyddiwch esmwythyddion fel Hydromol neu Epimax ar gyfer golchi a lleithio. Gall eli 5% Lidocaine helpu i leddfu poen ond gall achosi llosgi ar y cychwwyn.

Rhoi'r Gorau i Ysmygu: Gall rhoi'r gorau i ysmegu leihau'r risg y bydd VIN yn digwydd eto.

Opsiynau Triniaeth

Mae'r driniaeth ar gyfer VIN yn dibynnu ar leoliad, maint a difrifoldeb y cyflwr, yn ogystal â'r symptomau a brofir:

- **Rheolaeth Gadwrol:** Mewn rhai achosion, gellir monitro VIN heb roi triniaeth ar unwaith. Mae apwyntiad dilynol rheolaidd yn hanfodol i ganfod unrhyw gamau tuag at ganser.
- **Triniaeth ar y croen:** Mae gan hufen Imiquimod, sy'n ysgogi'r system imiwnedd, gyfradd llwyddiant rhwng 35% ac 81% o ran trin VIN.

- **Opsiynau Llawfeddygol:** Efallai y bydd llawdriniaeth yn cael ei hargymell ar gyfer tynnu briwiau VIN. Mae'r briw yn cael ei dynnu ynghyd ag ymyl 5mm o feinweoedd normal. Efallai y bydd angen ymyriadau llawfeddygol mwy cymhleth ar VIN mwy a helaeth, gan gynnwys ailadeiladu.

Bydd angen apwyntiad dilynol ar rai cleifion mewn clinig colposgopi, ac eraill mewn clinig Fwlfa yn dibynnu ar y cyflwr isorweddol a chanlyniadau biopsi.

Prognosis, dilyniant

Mae briwiau risg isel (VIN 1), fel arfer yn gwella ar eu pen ei hunain.

Mae tua 10% o friwiau gradd uchel (VIN2-3) a 50% o friwiau VIN gwahaniaethol (dVIN) yn symud ymlaen i fod yn ganser y Fwlfa dros 10 mlynedd.

Ar ôl triniaeth, mae angen apwyntiadau dilynol rheolaidd bob chwech i ddeuddeg mis, oherwydd gall VIN ddigwydd eto. Os byddwch yn sylwi ar unrhyw lymphiau, tyfiannau neu wlsrau newydd, cysylltwch â'ch darparwr gofal iechyd ar unwaith. Os nad ydych wedi datblygu unrhyw friwiau newydd 5 mlynedd ar ôl y driniaeth, mae'n bosibl y cewch eich rhyddhau i ofal eich meddyg teulu ond dylech barhau i hunanasesu eich fwlfa a rhoi gwybod i'ch meddyg teulu am unrhyw bryderon.

Rhagor o wybodaeth:

I gael gwybodaeth fanylach a dibynadwy am VIN, gweler yr adnoddau ar <https://www.rcog.org.uk/media/n13n5vvc/skin-conditions-of-the-vulva.pdf>

Neu wefan Macmillan <https://www.macmillan.org.uk/cancer-information-and-support/worried-about-cancer/pre-cancerous-and-genetic-conditions/vulval-intraepithelial-neoplasia>

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon, codwch hwy yn ystod eich ymweliad nesaf â'r clinig.

Cyfeiriadau

- The 2015 International society for the Study of Vulvovaginal disease terminology of Vulvar Squamous intraepithelial lesions
- Vulval intraepithelial neoplasia, Department of Gynaecology, CAVUHB, 2016
- Vulval intraepithelial neoplasia (VIN) Macmillan support, 30 April 2021
- Skin conditions of the vulva, RCOG. Rhagfyr 2013
- Use of topical imiquimod in the treatment of VIN: a case report and review of the literature. Int J of Women's Dermatology, March 2016
- 2020 WHO Classification of Female Genital Tumours

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**